Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Yr Adroddiad Cynllun Iaith Gymraeg 2014/15

# Yr Adroddiad Cynllun Iaith Gymraeg 2014/15

## Cyflwyniad

1. Dyma adroddiad yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ynglŷn â gweithredu ei Gynllun Iaith Gymraeg. Mae'n seiliedig ar ein gweithgareddau rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2015.

2. Cynhyrchir yr adroddiad hwn yn unol â'r fframwaith ar gyfer monitro ac adrodd y cytunwyd arno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Medi 2010.

## Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith

### Trosglwyddo Grant

3. Rydyn ni bellach wedi trosglwyddo'r gwaith o brosesu ceisiadau am gymorth cyfreithiol troseddol yn llwyddiannus o Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Fel rhan o'r broses drosglwyddo, rydyn ni wedi cyflwyno ffurflen gais Gymraeg ar-lein i sicrhau y gall ein cleientiaid barhau i wneud cais am Gymorth Cyfreithiol Troseddol yn Gymraeg a derbyn pob gohebiaeth berthnasol yn Gymraeg os ydyn nhw'n dewis hynny.

### Tendro

4. Mae ein cytundebau gyda darparwyr yn cynnwys cymalau penodol ynglŷn â darparu gwasanaethau Cymraeg i gleientiaid cymorth cyfreithiol yng Nghymru fel mater o drefn. Rydyn ni wedi cynnal sawl proses dendro ar gyfer rhoi cytundebau newydd yn ystod y cyfnod adolygu hwn ac mae hyn yn dal i fod yn ofynnol ar gyfer cytundebau cymorth cyfreithiol troseddol a sifil o ran rhoi cyngor i'r cyhoedd.

### Cyhoeddiadau

5. Mae popeth a gyhoeddir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu yn ddwyieithog. Maent yn cynnwys Adroddiad Blynyddol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol 2014-15 ac Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol 2014-15.

## Dangosyddion Perfformiad

## DP 1 Gwasanaethau Rheng Flaen

### Staff Dwyieithog

6. Ar hyn o bryd mae gennym ni un aelod o staff dwyieithog ac un dysgwr da sy'n gweithio'n benodol ar ein gwasanaethau Cymraeg yn dilyn ymadawiad ein gweithiwr achos arall Cymraeg ei iaith yn ystod y cyfnod yma. Mae hyn yn 7% o'r tîm sy'n rhoi gwasanaeth i gwsmeriaid yng Nghymru. Maen nhw'n gweithio i'n gwasanaethau rheng flaen (ffôn, gohebiaeth, ceisiadau) ac yn helpu gyda phroflenni a chyfieithiadau yn ôl y galw. Rydyn ni hefyd wrthi'n recriwtio dau weithiwr achos ychwanegol sy'n siarad Cymraeg i gymryd lle'r aelod o staff sydd wedi gadael. Bydd hyn yn cynyddu ein gallu i drafod yn y Gymraeg i 13% yn fuan. Yn ychwanegol, mae gennym ni ddau aelod arall o staff dwyieithog mewn gwahanol adrannau yn swyddfa Cymru sy'n gallu delio â gwasanaethau Cymraeg pan fo angen.

7. Rydyn ni'n parhau i gael adborth positif gan ein darparwyr ynglŷn â'n gwasanaethau Cymraeg rheng flaen.

### Galwadau ffôn

8. Rydyn ni'n cadw cofnodion misol o alwadau ffôn rydyn ni'n eu cael drwy ein llinell Gymraeg. Rhwng mis Ebrill 2014 a diwedd Mawrth 2015, fe gawson ni 594 o alwadau, 243 yn llai na'r 12 mis diwethaf. Mae hyn oherwydd y gostyngiad mewn gwaith sy'n derbyn cymorth cyfreithiol ers cyflwyno Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) ac fe allai fod yn rhannol oherwydd y prosesau digidol sydd wedi'u cyflwyno a'r system reoli costau a chleientiaid (CCMS) newydd.

## DP 2 Darparu Gwasanaethau drwy Drydydd Parti

### Rheoli cytundebau

9. Mae ein cytundebau cymorth cyfreithiol presennol gyda'n darparwyr wyneb yn wyneb, a chytundebau newydd a wnaed yn ystod 2013/14, yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr allu cynnig gwasanaeth Cymraeg yng Nghymru. Mae cwmnïau naill ai'n cydymffurfio drwy gyflogi siaradwyr Cymraeg neu mae ganddyn nhw drefn yn bodoli eisoes i gynnig gwasanaeth Cymraeg drwy gyfeirio cleient at gyfreithiwr Cymraeg ei iaith os yw'n gofyn am hynny. Rydyn ni wedi adolygu'r trefniadau gyda'n holl darparwyr yn ystod y cyfnod yma i ganfod pa siaradwyr Cymraeg sydd ganddyn nhw a faint o alw maen nhw wedi'i gael am wasanaethau Cymraeg. Rydyn ni hefyd wedi defnyddio'r cyfle yma i hybu ein gwasanaethau Cymraeg, fel ein llinell ffôn a'n ffurflenni dwyieithog. O'r 174 o sefydliadau y mae gennym gytundeb â nhw yng Nghymru, mae 106 yn cyflogi un neu ragor o siaradwyr Cymraeg, sy'n cyfateb i dros 60% o ddarparwyr. Mae'r holl ddarparwyr hynny nad ydyn nhw'n cyflogi siaradwr Cymraeg, ar wahân i un, yn ne ddwyrain Cymru lle mae'r galw am wasanaethau Cymraeg yn is. Mae 44 o ddarparwyr yn yr ardal hon yn cyflogi siaradwr Cymraeg ac felly rydyn ni'n ystyried bod digon o ddarpariaeth arall ar gael. Os nad yw darparwr yn gallu cynnig siaradwr Cymraeg, mae unrhyw gleient sy'n dymuno trafod yn Gymraeg yn cael ei drosglwyddo i gwmni arall o fewn yr un ardal gaffael lle mae darpariaeth o'r fath ar gael.

10. Yn ogystal, rydyn ni'n parhau i ariannu cyngor dros y ffôn drwy gytundebau'r llinell gymorth Cyngor Cyfreithiol Sifil (CLA). Gall cleientiaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn siarad gyda gweithwyr Cymraeg eu hiaith.

### Cleientiaid

11. Mae gwasanaeth ar-lein digidol newydd yr Asiantaeth, 'Check if you can get legal aid', ar Gov.uk ar gael yn Gymraeg ac yn helpu cleientiaid i benderfynu a ydy eu problemau'n gymwys ar gyfer cymorth cyfreithiol ac a ydyn nhw'n debygol o fod yn gymwys yn ariannol i gael cyllid cyhoeddus.

12. I gleientiaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth Cyngor Cyfreithiol Sifil (CLA), sef y llinell gymorth genedlaethol sy'n rhoi cyngor cyfreithiol arbenigol dros y

ffôn am Ddyled, Addysg, Tai, Teulu a Chamwahaniaethu, mae Fframwaith Cyfieithu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder (Y Llinell Iaith) ar gael i helpu i gyflwyno gwasanaethau Cymraeg lle mae gofyn amdanynt.

13. Os yw cleient yn cael ei gadw yn y ddalfa gan yr heddlu ac angen cymorth cyfreithiol, gallant ofyn am gyfreithiwr Cymraeg pan fo'r swyddog yn y ddalfa yn cysylltu â'n Canolfan Alw ar gyfer Cyfreithwyr ar Ddyletswydd (DSCC). Mae'r gwasanaeth hwn yn helpu i anfon cyfreithiwr priodol i orsaf yr heddlu.

14. Mae gwasanaeth y llinell CLA wedi mynd ati i gyfieithu tudalennau eu gwefan i'r Gymraeg ac maent i gael eu hasesu'n fyw gan wasanaethau digidol y Llywodraeth o fewn y tri mis nesaf.

## DP 3 Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant Iaith

15. Mae pob aelod o staff yn cael amser i fynd ar gyrsiau hyfforddi a datblygu. Mae tri aelod o staff ar hyn o bryd yn cael hyfforddiant yn y Gymraeg gan Wasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (GLlTEM) er mwyn gwella eu Cymraeg. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn fod GLlTEM wedi rhannu'r adnodd yma gyda ni. Fe fyddwn ni'n parhau i ystyried ceisiadau gan staff sy'n dymuno cael hyfforddiant gyda thâl os ydyn nhw'n gallu dangos y byddai'n ateb angen busnes.

## DP 4 Technoleg Gwybodaeth

16. Mae ein system TG newydd ar gyfer materion cymorth cyfreithiol sifil wedi ei ymestyn i gynnwys 1600 o ddarparwyr cymorth cyfreithiol. Mae gohebiaeth ac unrhyw ddatganiadau sy'n gofyn am lofnod y cleient ar gael yn Gymraeg.

## DP 5 Gweinyddu'r Cynllun

17. Ni chawsom unrhyw gwynion am ein gwasanaethau Cymraeg yn ystod 2014/15.

## Casgliad

18. Rydym yn falch o adrodd ein bod wedi gweithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg yn llwyddiannus eleni ac wedi parhau i gynnig gwasanaethau Cymraeg o safon uchel.



**Matthew Coats**
Prif Weithredwr,
Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol